| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **16 IONAWR 2012** |
| **TESTUN** | **DATBLYGIADAU DIWEDDAR YN Y FFRAMWAITH SAFONAU** |
| **PWRPAS** | **CYFLWYNO GWYBODAETH AM RAI DATBLYGIADAU SYDD AR Y GWEILL YNG NGHYMRU** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO** |

1. Mae nifer o faterion yn ymwneud â'r fframwaith safonau yng Nghymru wedi dod i'r amlwg yn ystod y misoedd diwethaf a hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor atynt.

Paragraff 10 (2)(b)

2. Y cyntaf yw paragraff 10(2)(b) o'r Cod Ymddygiad sy'n darllen *"Rhaid i chi ystyried bod gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef …pe byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd ganfod bod gwrthdaro rhwng eich rôl o ran gwneud penderfyniad, ar y busnes hwnnw, ar ran eich awdurdod yn gyfan a'ch rôl o ran cynrychioli buddiannau etholwyr yn eich ward neu eich dosbarth etholiadol."*

3. Mae'r cymal hwn wedi achosi penbleth i'r rhai sy'n ceisio ei ddehongli o'r cychwyn cyntaf. Credir mai bwriad gwreiddiol y cymal oedd atal aelodau unigol o'r Cabinet rhag gwneud penderfyniadau dan hawliau dirprwyedig mewn perthynas â materion fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar eu ward hwy.

4. Yn Ionawr 2011 taflwyd goleuni gwahanol ar y mater wrth i Banel Dyfarnu Cymru ddod i'r casgliad fod y cymal yn berthnasol i aelod lleol oedd yn cymryd rhan mewn penderfyniad ar gais cynllunio o fewn ei ward lle'r oedd yr aelod hwnnw wedi gwneud ei safiad ar y cais yn glir ymlaen llaw. Roedd hyn yn agor y drws i'r posibilrwydd y byddai'r aelodau lleol yn cael eu rhwystro rhag cymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth ar faterion dadleuol o fewn eu wardiau.

5. Er mwyn cael rhywfaint o eglurder a chysondeb dehongli ar draws Cymru, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau atodol. Disgwylir i'r canllawiau egluro mai safbwynt yr Ombwdsmon ydy fod y cymal wedi ei fwriadu ar gyfer aelodau unigol yn gwneud penderfyniadau gweithredol neu'n cymryd rhan mewn pwyllgorau lled-farnwriaethol (cynllunio neu drwyddedu) ac y bydd yn ymchwilio dim ond lle mae tystiolaeth glir o wrthdaro.

Trefn datrys anghydfod lleol

6. Yr ail ddatblygiad o sylwedd ydy'r drafodaeth sy'n cael ei harwain gan yr Ombwdsmon ar gael trefniadau lleol i ddatrys cwynion lefel isel o fewn y cynghorau, heb iddynt gael eu cyfeirio at yr Ombwdsmon. Fe soniodd am hyn yn y gynhadledd safonau. Sefydlwyd gweithgor dan adain Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn cynnwys cynrychiolaeth o blith swyddogion monitro, swyddogion o Lywodraeth Cymru, yr Ombwdsmon a Chadeirydd y Panel Dyfarnu.

7. Y bwriad ydy sefydlu trefn amlinellol, neu gyfres o egwyddorion, ar gyfer datrys yn lleol cwynion gan aelod neu swyddog am aelod arall yn y cynghorau sir. Byddai hyn yn

sicrhau rhywfaint o gysondeb ar draws y cynghorau ac yn golygu na fyddai cwynion lefel isel yn cael eu hanfon at yr Ombwdsmon.

8. Disgwylir i'r canllawiau ar y drefn gael eu cyhoeddi i fod yn weithredol ar ôl etholiadau 2012. Bryd hynny bydd angen i'r Pwyllgor adolygu ei drefn leol (sy'n gysylltiedig efo Safon Gwynedd a'r Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog) i weld a yw'n cyd-fynd efo'r canllawiau.

Ymchwiliadau Lleol

9. Y datblygiad nesaf ydy bwriad gan yr Ombwdsmon i fabwysiadu trefn newydd mewn perthynas â chwynion yn erbyn cynghorwyr sir lle mae'r Ombwdsmon o'r farn na fyddai'r achos yn arwain at gosb.

10. Bydd aelodau'r Pwyllgor yn cofio bod yr Ombwdsmon yn defnyddio prawf dau gam wrth asesu a yw am ymchwilio i gŵyn neu beidio. Y cam cyntaf ydy sefydlu a oes tystiolaeth fod y cod wedi ei dorri. Yr ail gam ydy penderfynu a fyddai'r achos yn denu cosb (sef cerydd, ataliad neu waharddiad). Dros y blynyddoedd mae'r ail brawf yma wedi bod yn destun anfodlonrwydd gan rai aelodau o bwyllgorau safonau sy'n credu na ddylai'r Ombwdsmon ei ddefnyddio fel maen prawf ar gyfer cychwyn ymchwiliad.

11. Bellach, mae'n bosib, lle mae'r Ombwdsmon yn amheus a fyddai cwyn yn erbyn cynghorydd sir yn cwrdd ag ail ran y prawf, iddo gyflwyno'r mater i'r Swyddog Monitro i ymchwilio iddo.

Lwfansau

12. Ym mis Rhagfyr cyhoeddodd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ei adroddiad blynyddol sy'n gosod taliadau i aelodau ar gyfer 2012/13.

13. Mewn perthynas ag aelodau cyfetholedig mae'r Panel wedi pennu'r lwfansau canlynol ar gyfer 2012/13:

| | |
|---|---|
| Cadeirydd | £256 y dydd (£128 am hanner diwrnod) |
| Aelod Cyfetholedig | £198 y dydd (£99 am hanner diwrnod) |

14. Bydd y drefn o dalu lwfansau dyddiol yn disodli'r drefn bresennol o dalu lwfans blynyddol pan ddaw i rym ar 7 Mai 2012. O hynny ymlaen gwneir taliad i aelodau cyfetholedig ar sail pob cyfarfod a fynychir ( hyd at uchafswm sydd gyfwerth â deg diwrnod llawn mewn blwyddyn). Ystyrir cyfarfod hanner diwrnod yn un sy'n para hyd at 4 awr a chyfarfod diwrnod llawn yn un sydd dros 4 awr o hyd.

15. At hyn telir costau teithio, yn unol â graddfeydd a osodir gan y Panel ac ad-delir costau gofal i rai sydd yn gorfod talu am ofal i ddibynyddion er mwyn iddynt fynychu'r cyfarfodydd.

16. Gellir gweld adroddiad cyflawn y Panel ar www.panelcymrugydnabyddiaethariannol.co.uk

17. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth.